



Grŵp Cynefin

Mwy na thai • More than housing

Pecyn Gwybodaeth

Arweinydd Tîm Adnewyddu a Gwella



Mehefin 2023

CYNNWYS

- 1. Croeso**
- 2. Cefndir**
- 3. Awgrymiadau ar gyfer cwblhau cais am swydd Grŵp Cynefin**
- 4. Disgrifiad Swydd a Manyleb Person**
- 5. Sut i ymgeisio am y swydd**
- 6. Datganiad Cyfle Cyfartal**
- 7. Ffurflen Monitro Cyfle Cyfartal ac Amrywiaeth**

1. Croeso

Annwyl Ddarpar Ymgeisydd

Cyfeirnod y swydd: GC584-00
Arweinydd Tim Adnewyddu a Gwella
Cytundeb Dros dro (cyfnod mamolaeth)
35 awr yr wythnos
Lleoliad gwaith: Hyblyg - Swyddfeydd y Grŵp / Gartref

Diolch i chi am holi ynglŷn â'r swydd uchod gyda Grŵp Cynefin ac amgaewn becyn swydd i'ch sylw.

Cofiwch nodi popeth sy'n berthnasol i'r cais gan gadw mewn cof yr hyn sydd yn y manyleb person.

1. Darllenwch y disgrifiad swydd a'r manyleb person yn ofalus.
2. Cwblhewch bob rhan o'r ffurflen gais.
3. Peidiwch â chynnwys CV.

Edrychwn ymlaen at dderbyn eich ffurflen gais, gan eich atgoffa i'w chyflwyno erbyn 12.00 o'r gloch y prynhawn, **dydd Gwener 9 Mehefin 2023**.

Os yn llwyddiannus i fod ar y rhestr fer am gyfweiliad, byddwn yn cysylltu â chi drwy'r cyfeiriad e-bost yr ydych wedi ei nodi ar eich ffurflen gais. Mae angen i chi wirio eich e-byst yn rheolaidd.

Os oes angen rhagor o wybodaeth arnoch ynglŷn â'r swydd, yna mae croeso i chi gysylltu â Heidi Flack, Cyfarwyddwr Asedau Dros Dro ar (0300 111 2122).

Yn gywir
Tîm Adnoddau Dynol

2. Cefndir

Mae hwn yn gyfnod cyffrous i Grŵp Cynefin wrth i ni barhau ar daith drawsnewidiol tuag at ddiwylliant sy'n canolbwyntio'n ddiffuant ar y cwsmer a chanlyniadau. Mae'r sector tai a'n cymunedau gwledig yn parhau i wynebu heriau mawr, yn arbennig datgarboneiddio a darparu mwy o dai fforddiadwy.

Rydym wedi bod yn darparu tai o ansawdd, sy'n ddiogel a fforddiadwy dros chwe sir gogledd Cymru a gogledd Powys i dros 8,000 o bobl ers 2014, pan gawsom ein creu wrth i ddau Landlord Cymdeithasol Cofrestredig traddodiadol uno. Rydym yn gweithio'n galed i ddarparu tai a gwasanaethau rhagorol, i gyfrannu i ddatblygiad cymunedau cynaliadwy a gwarchod a hybu'r iaith Gymraeg gyda balchder.

Mae ein cymunedau a nifer y cartrefi rydyn ni'n eu rheoli ar fin tyfu, rydyn ni am gynyddu iechyd a lles ein cymunedau i'r eithaf, creu cyfleoedd i newid bywydau a siapio lleoedd sy'n sicrhau dyfodol cynaliadwy. Mae gennym uchelgeisiau mawr i adeiladu dros 350 o dai fforddiadwy newydd yn ystod y tair blynedd nesaf; 35 cartref arloesol arall i safon carbon isel / di-garbon a lleihau ein hol troed carbon o leiaf 4%.

Rydym yn ehangu ein cynnig Gofal Ychwanegol gyda dau ddatblygiad pellach, gan greu 107 cartref arall mewn dwy ardal newydd i fynd i'r afael a'r angen cynyddol, ond yn fwy na hynny byddwn yn helpu i greu lleoedd lle mae gan bobl ymdeimlad o gymuned ac yn gallu derbyn lefelau hyblyg o gefnogaeth fel y gallent barhau i fyw'n annibynnol mewn man y maent yn ei garu am gyfnod hirach.

Mae gennym uned fusnes, Gorwel, sy'n darparu gwasanaethau cefnogol ym meysydd camdriniaeth yn y cartref ac atal digartrefedd.

Mae dau is-gwmni hefyd yn weithredol o dan ambarêl Grŵp Cynefin: Canllaw a Gofal a Thrwsio Conwy a Sir Ddinbych sy'n gweithio i helpu pobl hŷn drwsio, addasu, cynnal a chadw eu cartrefi fel y gallent barhau i fyw yn annibynnol yn eu cartrefi eu hunain.

Mae'r swydd hon yn cynnig cyfle i unigolion sy'n awyddus i ddatblygu gyrfa yn y maes tai mewn awyrgylch Gymreig lle mae'r amodau gwaith yn flaengar a chyfeillgar i'r teulu.

Mwy na thai

Rydym eisoes yn adnabyddus am wneud mwy na rheoli a gosod tai yn unig. Rydym yn gweithredu fel Strwythur Grŵp, gydag arbenigedd ac adnoddau mewn byw'n annibynnol, addasiadau a gwasanaethau cymorth i bobl ifanc 16-24 oed, pobl hŷn a'r rhai sy'n byw gyda phroblemau iechyd meddwl yn ein cymunedau yn ogystal a gwasanaethau cefnogol ar gyfer trais domestig ac atal digartrefedd. Mae ein cymunedau gwledig yn bwysig i ni ac felly hefyd yr amgylchedd, gyda phrosiect ein warden ynni gyda degawd o brofiad yn ein cymunedau.

Rydyn ni'n gwybod trwy ein prosiectau sydd wedi ennill sawl gwobr, megis Y Shed a HWB Dinbych, y gallwn ni wneud gwahaniaeth go iawn i unigolion a'u cymunedau ac rydyn ni'n dda am gael partneriaid i weithio gyda'i gilydd i gyflawni mwy nag y gallen ni yn unigol i adfywio cymunedau a chreu cyfleoedd.

Dyma ychydig mwy am beth ydym ni'n ei olygu pan fyddwn ni'n sôn am 'Mwy na thai'

Cartrefi addas o safon mewn llefydd y mae pobl yn falch ohonynt

Bydd ein cartrefi yn y dyfodol yn ddiogel ac yn **arloesol**, yn cynnwys y dyluniadau diweddaraf lle gallwch chi weithio gartref. Byddant yn gartrefi am oes, gyda thechnoleg glyfar, yn rhatach i'w rhedeg, yn garbon isel ac yn lleoedd cysylltiedig a mannau gwyrdd hawdd eu cyrraedd lle gall ffrindiau, teuluoedd a phlant chwarae, tyfu a chyfarfod yn ddiogel.

Gwasanaethau a phrofiadau rhagorol i'n cwsmeriaid

Rydym am i bobl fod eisiau byw yn ein cartrefi, cael ein hymatebion yn iawn y tro cyntaf ac i'n cwsmeriaid ddweud bod ein gwasanaethau'n rhagorol. Ac mae'n hawdd i'n tenantiaid gysylltu a ni pryd bynnag maen nhw eisiau neu angen.

Gwella bywydau

Byddwn yn gwneud gwahaniaeth i iechyd a lles y bobl yn ein cymunedau. Bydd ein gwaith yn parhau i fynd i'r afael ag effeithiau tlodi (tlodi bwyd, tlodi digidol a tlodi tanwydd) a'u lleihau, gan ddod o hyd i atebion a chyfleoedd sy'n newid bywydau sy'n galluogi pobl i godi allan o dlodi.

Byddwn yn gweithio'n agos gyda phobl i'w galluogi i aros yn eu cartrefi yn ddiogel ac yn annibynnol cyhyd ag y bo modd, a pharhau i weithio gyda phartneriaid i gefnogi grwpiau bregus ac amrywiol o bobl, ac atal digartrefedd a chefnogi'r rhai sy'n dioddef cam-drin domestig.

Cynnal cymunedau

Bydd ein cymunedau'n ffynnu a byddwn yn gweithio mewn partneriaeth i hwyluso a chefnogi hyn. Byddwn yn gatalydd ar gyfer newid cadarnhaol yn ein cymunedau, gan fuddsoddi mewn gwella iechyd a lles ein cymunedau wrth weithio gydag asiantaethau a grwpiau eraill i adfywio cymunedau.

Yn ogystal ag adeiladu mewn ardaloedd trefol, bydd gennym hefyd ffocws gwirioneddol ar ein cymunedau gwledig lle mae ail gartrefi yn arwain at eithrio pobl ifanc lleol trwy beri iddynt gael eu prisio allan o'r farchnad.

Twf cadarn a chynaliadwy

Byddwn yn parhau i adeiladu tai diogel, fforddiadwy o ansawdd rhagorol, gan gynnig tai ar gyfer gwahanol ddeiliadaethau sy'n diwallu angen lleol, boed yn ddemograffig, yn gymdeithasol neu'n economaidd. Lle bynnag y bo modd, byddwn yn adeiladu cartrefi i safon di-garbon ac yn chwilio am gyfleoedd i ddenu grantiau ar gyfer adeiladau newydd ac ôl-osod i wella effeithlonrwydd ynni cartrefi presennol.

Byddwn yn archwilio cyfleoedd i ddefnyddio ein harbenigedd i adeiladu tai ar gyfer eu gwerthu ar y farchnad er mwyn cynhyrchu cyfleoedd i fuddsoddi mewn tai rhent mwy fforddiadwy a pharhau i geisio cyfleoedd gweithio rhanbarthol a lleol trwy weithio mewn partneriaeth sy'n ychwanegu gwerth, yn cyfateb i'n gwerthoedd ac yn helpu i adeiladu mwy o gartrefi.

Mwy o wybodaeth - ewch ar ein gwefan www.grwpcynefin.org

3. Awgrymiadau ar gyfer cwblhau cais am swydd gyda Grŵp Cynefin

Yn Grŵp Cynefin mae ein hethos yn canolbwyntio ar alluogi, cefnogi a grymuso pobl, ac mae hynny'n cynnwys ein staff. Gyda hyn mewn golwg rydym wedi tynnu ynghyd ychydig o gyngor ac awgrymiadau defnyddiol ar sut i gwblhau cais am swydd wag gyda Grŵp Cynefin. Rydym am asesu pobl ar eu gorau fel y gallwn gael gwir ddealltwriaeth o addasrwydd i'r rôl ac i'n sefydliad.

Y pethau sylfaenol

Mae'n swnio'n syml ond mae'r pethau sylfaenol hyn yn gwneud gwahaniaeth i'ch cais.

- Cwblhewch y cais yn llawn gan roi sylw arbennig i hanes a dyddiadau swyddi. Peidiwch â gadael dyddiadau'n wag - os oes gennych fwlch yn eich cyflogaeth dywedwch wrthym am hyn, ni fydd yn effeithio ar ein hasesiad
- Gwiriwch eich sillafu a'ch gramadeg
- Sicrhewch fod eich cais yn cael ei gyflwyno'n dda yn electronig. Rydym yn asesu cymwysiadau yn gyffredinol ar gyfer llythrennedd cyfrifiadurol a defnyddio Microsoft Office

Deall y rôl / swydd

Mae ein ffurflen gais yn gofyn am eich dealltwriaeth o addasrwydd i'r rôl fel y gallwch ffitio o fewn diwylliant a gwerthoedd ein sefydliad.

- **PEIDIWCH** â diystyru na rhuthro'r cwestiynau hyn - maen nhw'n rhan o'n hasesiad
- **PEIDIWCH** â chopïo na llên-ladrata o gynnwys ar-lein neu ein gwefan
- **COFIWCH** ymchwilio i'r pwnc (os oes angen) a ffurfio'ch casgliad eich hun
- **COFIWCH** ymchwilio i ddarpariaethau Grŵp Cynefin a'r is-gwmnïau.

Datganiad personol - y darn pwysig iawn!

Bydd eich datganiad personol yn cael ei farcio gan grŵp o aseswyr (o leiaf dau o bobl) yn annibynnol yn erbyn manyleb unigolyn y rôl. Y fanyleb person yw'r ddogfen olaf yn y pecyn swydd bob amser a bydd yn cynnwys set o feini prawf hanfodol a ddymunol.

- **GWNEWCH YN SIWR** eich bod yn cwrdd â'r meini prawf hanfodol, yn benodol lefel y profiad sy'n ofynnol ar gyfer y rôl. Ni fydd ceisiadau nad ydynt yn cwrdd â'r lefel ofynnol o brofiad yn cael eu hasesu ymhellach
- **COFIWCH** deilwra'ch cais gan ddarparu manylion ac enghreifftiau ar gyfer pob gofyniad yn y fanyleb person.

Er enghraifft, nid yw'n ddigonol dweud "Rwy'n chwaraewr tîm da". I sgorio'r mwyafrif o bwyntiau byddwch chi'n rhoi enghraifft i ni o amser lle buoch chi'n gweithio fel rhan o dîm a beth oedd y canlyniad.

- **COFIWCH** gynnwys pob un o ofynion y fanyleb person
- **COFIWCH** gynnwys penawdau a'i gwneud hi'n hawdd i'r asesydd weld pa ofyniad yn y fanyleb person rydych chi'n cyfeirio ato
- Nid yw ychydig o frawddegau yn ddigon o hyd ar gyfer datganiad personol. Bydd datganiad da yn darparu'r holl lefel o fanylion sydd eu hangen arnom ond bydd yn glir ac yn gryno - **tua 2 dudalen A4 yn fras.**

Pwynt cyswllt - Mae ein pecynnau swyddi bob amser yn cynnwys pwynt cyswllt ar gyfer gwybodaeth bellach. Os ydych chi am ddarganfod mwy am y rôl neu wirio'ch addasrwydd, defnyddiwch y wybodaeth gyswllt a ddarperir.

4. Disgrifiad Swydd a Manyleb Person



DISGRIFIAD SWYDD

ARWEINYDD TIM ADNEWYDDU A GWELLA (RENEWAL AND IMPROVEMENTS TEAM LEADER)

Adran:	Gweithrediadau
Yn atebol i:	Rheolwr Asedau a Chydymffurfiaeth / Cyfarwyddwr Asedau Dros Dro
Yn gyfrifol am:	Swyddog Technegol Adnewyddu Swyddog Gweinyddol Rhaglenni Adnewyddu
Lleoliad y swydd:	Swyddfeydd y Grŵp / Gartref

DIBEN Y SWYDD:

- Cydlynu rhaglen waith adnewyddu a gwella mewn eiddo ble mae gan Grŵp Cynefin gyfrifoldeb gan sicrhau bod y gwasanaeth yn rhagorol o fewn yr adnoddau ddyrenir.
- Rheoli y gyllideb adnewyddu a gwella tai, a rheoli perfformiad contractwyr o ran costau, cwblhau gwaith, bodlonrwydd tenantiaid ac eraill.
- Cefnogi'r Rheolwr/Cyfarwyddwr a chydweithio gydag aelodau eraill i gyflawni nodau ac amcanion y Tîm.

CYFRIFOLDEBAU'R SWYDD:

1. Cydlynu rhaglen adnewyddu a gwella mewn eiddo ac asedau o fewn adnoddau cyllideb sydd wedi ei gytuno, gan adnabod a rheoli risgiau yn barhaus.
2. Arwain, rheoli, cefnogi a datblygu swyddogion y tîm adnewyddu a gwella yn effeithiol.
3. Gyda arweiniad, cydlynu y rhaglenni adnewyddu a gwella i gynnwys blaenoriaethu y gwaith sydd ei agen, trefnu rhaglen, codi archebion, delio gyda ymholiadau tenantiaid a contractwyr, trefnu archwilio gwaith a chytuno anfonebau.
4. Gwerthuso a blaenoriaethu ceisiadau priodol am waith adnewyddu heb ei raglennu sy'n codi yn dilyn ymweliadau swyddogion ardal cynnal a chadw a'u plethu i mewn i'r rhaglen waith.
5. Cynnal cyfarfodydd gyda swyddogion ardal er mwyn cynorthwyo blaenoriaethu eu ceisiadau am waith i'n eiddo
6. Paratoi gwybodaeth ac adroddiadau ar sefyllfa y rhaglen a gwariant yn rheolaidd, i gynnwys proffilio ariannol er diben rheoli cyllideb.
7. Arolygu perfformiad contractwyr o ran cwblhau gwaith yn brydlon, cost, ansawdd a bodlonrwydd tenantiaid yn erbyn dangosyddion perfformiad.
8. Gofalu bod tenantiaid yn derbyn gwybodaeth gywir a phrydlon am waith adnewyddu a gwella eu cartrefi, a bod anfodlonrwydd a chwynion yn cael sylw priodol.
9. Gyda'r Rheolwr cynnal cyfarfodydd rheolaeth gyda'r contractwyr / ymgynghorwyr a swyddogion perthnasol.
10. Adolygu data cyflwr eiddo, a plethu gyda rhaglen waith yn ôl y blaenoriaethau sydd wedi ei gytuno trwy ddefnyddio System Rheolaeth Tai.
11. Arwain ar drefnu "Pre, during and Post Survey" fel yr angen gyda chymorth swyddogion eraill
12. Cynorthwyo'r Rheolwr Asedau a Chydymffurfiaeth a'r Cyfarwyddwr i baratoi adroddiadau ar gyfer Cynlluniau 5 ac 30 mlynedd wrth ddiweddarau gwybodaeth elfennau yn System Rheolaeth Tai.
13. Cyfrannu at adolygu trefniadau a safonau adnewyddu a gwella ac adolygu perfformiad contractwyr fel bod y gwasanaeth yn effeithiol ac yn dilyn arferion gorau a deddfwriaeth.
14. Cyfrannu at ddatblygu trefniadau caffael i allu darparu y gwasanaeth yn effeithiol a dangos gwerth am arian.
15. Gofalu bod gweithgareddau'r Tîm yn cyflawni polisïau, gweithdrefnau, safonau, targedau, cyllidebau ac anghenion llywodraethu Grŵp Cynefin.

16. Ymateb i ymholiadau mewnol ac allanol yn broffesiynol, yn unol â safonau gofal cwsmer Grŵp Cynefin.
17. Cynrychioli'r gwasanaeth yn fewnol ac allanol fel sydd angen.

CYFRIFOLDEBAU CORFFORAETHOL:	
Cyflawni Gwasanaeth	• Cyflawni'r gwaith i safon uchel, ar amser ac o fewn cyllidebau • Ymateb i gwsmeriaid mewnol ac allanol yn amserol ac yn broffesiynol • Darparu cyngor a chefnogaeth i gyd-weithwyr / cwsmeriaid • Cyflwyno adroddiadau rheolaidd o fewn cyfrifoldebau'r swydd • Cydymffurfio gyda phob polisi ac unrhyw ddeddfwriaeth perthnasol
Rheoli	• Rheoli'r swyddi atebol yn uniongyrchol • Cwblhau adolygiadau ar amser gan adnabod anghenion datblygiad ,a hyfforddiant • Rheoli perfformiad yr unigolyn gan weithredu'n briodol mewn achosion o danberfformio ond hefyd cydnabod perfformiad da.
Perfformiad	• Cyflawni gwaith yn unol â Safonau Perfformiad Allweddol • Gweithio tuag at nodau ac amcanion Grŵp Cynefin a chefnogi datblygiad sefydliad sy'n perfformio i safon uchel • Gweithio gyda'r Rheolwr Asedau a Chydymffurfiaeth i fonitro perfformiad y Tîm gan adnabod, ymyrryd a gweithredu fel sydd angen.
Polisiau a Phrosesau	• Gweithio yn unol â holl bolisiau a phrosesau Grŵp Cynefin • Sicrhau bod polisiau a phrosesau yn cyd-fynd â gofynion deddfwriaethol, rheolaethol ac ymarferion da • Adolygu a chynnig gwelliannau i bolisiau i hyrwyddo gwelliant parhaus.
Ariannol a Chyllidebol	• Cyfrannu i reoli cyllidebau'n effeithiol
Arall	• Cynrychioli Grŵp Cynefin yn effeithiol yn allanol trwy gyfleu delwedd broffesiynol a phositif ar bob achlysur • Ymrwymiad i gyfranogiad tenantiaid ym mhob agwedd o'r gwaith

Nid yw'r Disgrifiad Swydd uchod yn rhestr holl gynhwysfawr o ddyletswyddau a chyfrifoldebau'r swydd.

Bydd gofyn i ymgymryd â dyletswyddau eraill o fewn graddfa'r swydd o bryd i'w gilydd mewn trafodaeth â'r Rheolwr.

Adolygir y disgrifiad swydd yn rheolaidd ac yn unol â gofynion y gwasanaeth.

Caiff unrhyw newid a fwriedir ei drafod gyda deilydd y swydd.

CYFRIFOLDEBAU PERSONOL:	
Gweithredu yn unol a gwerthoedd Grŵp Cynefin:-	
Agored	Tryloyw yn y ffordd rydym yn gweithio ag yn gwneud penderfyniadau. Barod i gydweithio er mwyn sicrhau'r canlyniadau gorau.
Arloesol	Blaengar ac yn barod i herio ein hunain er mwyn darganfod ffyrdd newydd o weithredu a darparu gwasanaethau o'r safon uchaf i'n cwsmeriaid.
Cefnogol	Gweithio gydag angerdd i gefnogi ein cwsmeriaid, cyd-weithwyr a'n partneriaid yn ogystal â helpu ein cymunedau lwyddo.
Cyflawni	Gweithredu'n broffesiynol gan ddefnyddio ein harbenigedd, er mwyn sicrhau ffyniant y cwmni a'n pobl. Anelu am welliant parhaus a gwerth am arian bob amser.
Parch	Parchu ein gilydd ag eraill, hyrwyddo cydraddoldeb a gwrthod unrhyw ragfarn.
Sicrhau cyfrinachedd, diogelwch a chywirdeb data Hyrwyddo a gweithredu yn unol â'r Polisi Iechyd a Diogelwch Hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth ym mhob agwedd o'r gwaith.	

Disgwylir bod pob aelod staff o fewn Grŵp Cynefin yn gweithredu o fewn ein Fframwaith Cymwyseddau, sef ymddygiadau neu sgiliau sy 'n hanfodol ar gyfer perfformiad effeithiol: • Cyfathrebu Effeithiol • Gweithio fel Tim • Gweithio'n Effeithiol ac Effeithlon • Rhagoriaeth Cwsmer • Gwelliant Parhaus

PRIF GYSYLLTIADAU'R SWYDD:
<u>Mewnol:</u> Rheolwr Asedau a Chydymffurfiaeth, Cyfarwyddwr Asedau, Staff y Tîm Cynnal a Chadw, Rheolwyr a staff tимоedd eraill <u>Allanol:</u> Tenantiaid a chwsmeriaid eraill, ymgynghorwyr, contractwyr, swyddogion y Cynghorau a Chymdeithasau Tai eraill ac Archwilwyr Mewnol.

AMGYLCHEDD GWAITH ARFEROL:
• Gwaith wrth ddesg mewn swyddfa neu gartref gyda chytundeb. • Cynnal ymweliadau o eiddo er mwyn cael fwy o dealltwriaeth o ein eiddo • Teithio i gyfarfodydd / hyfforddiant / seminarau a thebyg yn fewnol ac allanol yn swyddfeydd y Grŵp, partneriaid, cyfranogwyr. • Oriau swyddfa safonol, ond oriau ychwanegol o bryd i'w gilydd i fynychu cyfarfodydd tu allan i oriau swyddfa.

MANYLEB PERSON
ARWEINYDD TIM ADNEWYDDU A GWELLA DROS DRO

Ystyrir yr holl feini prawf yn hanfodol oni nodir fel dymunol

Addysg a Chymwysterau:

Lefel A (2+)
HNC (Higher National Certificate)
NVQ Lefel 4 (National Vocational Qualification)
City & Guilds HPD Lefel 4 (Higher Professional Diploma)
Neu'r hyn sy'n cyfateb trwy brofiad perthnasol

Profiad Proffesiynol:

- Profiad o flaenoriaethu a rhaglennu gwaith yn maes eiddo
- Profiad o oruchwylio cyllidebau sylweddol
- Profiad o gyflawni safonau gofal cwsmer
- Profiad o ddelio â chyfraith, rheoliadau a iechyd a diogelwch ym maes eiddo

Dymunol

- Profiad o waith gweinyddol ym maes tai
- Profiad rheoli tim o staff a/neu ymgynghorwyr ym maes eiddo.
- Yn gyfarwydd â safonau ansawdd tai Llywodraeth Cymru

Gwybodaeth a Sgiliau:

Gwybodaeth a dealltwriaeth o'r maes tai cymdeithasol
Yn medru gweithio'n dda fel rhan o dîm
Yn meddu ar sgiliau cryf i ddatrys problemau
Yn medru defnyddio Technoleg Gwybodaeth i gyflawni'r gwaith
Trwydded yrru gyfredol lawn (dymunol)
Yn ddwyieithog (Cymraeg a Saesneg) yn y lefelau canlynol neu lefelau uwch:

Deall: Yn gallu dilyn sgysiau arferol sy'n ymwneud â'r gwaith yn y ddwy iaith rhwng siaradwyr rhugl
Siarad: Yn gallu cynnal sgwrs go fanwl am faterion gwaith arferol yn y ddwy iaith
Darllen: Yn gallu darllen a deall deunydd cyffredin a deunydd technegol gyda geiriadur yn y ddwy iaith
Ysgrifennu: Yn gallu drafftio testun arferol gyda chymorth golygyddol yn y ddwy iaith

Arwain a Rheoli:

Medru arwain uned o bobl gan eu hysbrydoli i weithio'n ymroddedig a chydwybodol
Medru datblygu staff i fod yn effeithiol a hyderus yn eu holl waith
Medru dirprwyo gwaith o dan reolaeth, gan sicrhau atebolrwydd priodol o ran cywirdeb a pherfformiad

Crynodeb o'r Telerau ac Amodau ARWEINYDD TIM ADNEWYDDU A GWELLA	
Math o gytundeb	Dros Dro – (cyfnod mamolaeth)
Cyflog	Band E, Pwynt 1 £31,689 pro rata Telir cyflog ar yr 20fed o bob mis
Gwyliau:	30 diwrnod y flwyddyn ynghyd â'r gwyliau banc statudol a'r cyfnod rhwng y Nadolig a'r Flwyddyn Newydd pro rata
Teithio:	Defnyddiwr car achlysurol
Pensiwn:	Mae Grŵp Cynefin yn cynnig darpariaeth pensiwn trwy Gynllun Social Housing Pension Scheme (SHPS)
Cyfnod prawf:	2 fis
Oriau gweithio a threfniant gwaith	35 awr yr wythnos Llun - Gwener Gweithredir cynllun fflecsi
Tâl salwch	Gweithredir cynllun tâl salwch galwedigaethol.
Buddiannau ffordd o fyw	Mynediad i'n Cynllun Cymorth Cyflogaeth. Cyfleusterau gweithio hyblyg a'r gallu i weithio o bell/ gweithio gartref os yn addas. Cynllun arian parod iechyd Westfield Health.
Absenoldebau Arbennig	5 diwrnod pro rata gyda thâl mewn unrhyw gyfnod o 12 mis i ofalu am ddibynyddion penodol 2 diwrnod pro rata gyda thâl i briodi, i symud tŷ, i ysgaru. Amser credyd rhesymol ar gyfer apwyntiadau meddygol. Hyd at 10 diwrnod pro rata gyda thâl ar achlysur o brofedigaeth. Hyd at 3 mis pro rata gyda thâl i ofalu am berthynas agos gydag afiechyd terfynol

5. Sut i ymgeisio am y swydd

Cwblhewch y ffurflen gais a'i chyflwyno erbyn **hanner dydd, dydd Gwener 9 Mehefin 2023**. Byddwch yn derbyn e-bost yn cadarnhau ein bod wedi ei derbyn eich cais.

6. Datganiad Cyfle Cyfartal

Mae Grŵp Cynefin yn derbyn gofynion cyfreithiol Deddf Cydraddoldeb 2010 ynghyd â deddfwriaethau eraill perthnasol a'u goblygiadau. Mae gweithdrefnau yn eu lle i oresgyn gwahaniaethu uniongyrchol ac anuniongyrchol.

Mae polisïau Grŵp Cynefin yn cael eu monitro a'u hadolygu'n rheolaidd i sicrhau bod unigolion yn cael eu trin yn deg.

7. Ffurflen Monitro Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant

Gofynnwn yn garedig i chi hefyd gwblhau'r linc i'r Ffurflen Monitro Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant fydd yn yr e-bost yn cadarnhau ein bod wedi derbyn eich cais.